# Agenda

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | **Cyfarfod cyhoeddus o fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **Dydd Llun, 12 Ionawr 2026** |
| **Amser y cyfarfod:** | **3.10pm – 4.40pm** |
| **Lleoliad:** | **Drwy gyfrwng Microsoft Teams** |

| Amser | Eitem |
|---|---|
| 3.10pm<br>**(5 munud)** | **Eitem 1. Dechrau'r cyfarfod**<br>• Croeso<br>• Datgan buddiannau<br>• Egluro trefn y cyfarfod<br><br>Noddwr a chyflwynydd: Neil Sachdev (Cadeirydd)<br><br>**Crynodeb: NODI unrhyw ddatganiadau o fuddiant.** |
| 3.15pm<br>**(75 munud)** | **Eitem 2. Penderfyniad ar y Parc Cenedlaethol**<br>Noddwr: Dom Driver, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu<br>Cyflwynydd: Keith Davies, Prif Ymgynghorydd, Tirweddau Gwarchodedig; Ash Pearce, Arweinydd Tîm, Rhaglenni Tirweddau Dynodedig<br><br>**Crynodeb: CYMERADWYO'r argymhelliad mewn perthynas â dynodiad y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig.**<br><br>**Cyfeirnod y papur: 26-01-B01** |
| 4.30pm<br>**(10 munud)** | **Eitem 3. Penderfyniad ar y gyllideb ar gyfer Ardaloedd Draenio Mewnol**<br>Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol<br>Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid |

**Crynodeb: CYMERADWYO'r gyllideb ar gyfer yr Ardaloedd Draenio Mewnol**

**Cyfeirnod y papur: 26-01-B02**

| | |
|---|---|
| **4.40pm** | **Cau'r cyfarfod cyhoeddus** |

# Papur Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 16 Rhagfyr 2025 |
| **Teitl y papur:** | Gorchymyn (Dynodi) Parc Cenedlaethol Glyndŵr 2026 |
| **Cyfeirnod y papur:** | 26-01-B01 |
| **Noddwyd y papur gan:** | Dominic Driver, Cyfarwyddwr Gweithredol, Gweithrediadau Cenedlaethol |
| **Paratowyd y papur gan:** | Keith Davies, Prif Ymgynghorydd ar Dirweddau Dynodedig; Ash Pearce, Rheolwr Rhaglen; Richard Sumner, Prif Ymgynghorydd Arbenigol |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Keith Davies, Ash Pearce, Richard Sumner |
| **Diben y papur** | Gwneud penderfyniad |
| **Crynodeb** | Rydym wedi cwblhau'r ymgynghoriad ar orchymyn (dynodi) Parc Cenedlaethol arfaethedig, gan gynnwys y pum ymgynghorai statudol awdurdod lleol, sefydliadau cynrychioliadol a'r cyhoedd. Cawsom 1,678 o ymatebion; roedd 66% yn cefnogi'r gorchymyn dynodi, roedd 32% yn ei erbyn, ac roedd 2% yn ansicr. Gwrthwynebodd tri o'r ymgyngoreion awdurdod lleol a dywedodd y ddau arall nad oeddent yn gallu cefnogi'r gorchymyn dynodi.<br><br>Rydym wedi asesu'r dystiolaeth a'r barn a ddarparwyd yn erbyn y profion statudol o (yn gryno) harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored.<br>I gloi – rydym yn fodlon bod y dystiolaeth a gasglwyd yn dangos bod y tirweddau sydd wedi'u cynnwys ym Mharc Cenedlaethol arfaethedig Glyndŵr yn bodloni'r gofyniad statudol ar gyfer dynodiad. Felly nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i'r ffin arfaethedig.<br><br>Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn cwmpasu ystod o ffactorau y tu hwnt i'r profion statudol. Nid oedd y rhain yn berthnasol i'n hystyriaeth ond rydym wedi adrodd arnynt er tryloywder ac i ddarparu gwybodaeth lawn i Lywodraeth Cymru i lywio eu penderfyniad. |

| | |
|---|---|
| | At ei gilydd, rydym yn asesu y dylem wneud y gorchymyn dynodi mewn perthynas â Pharc Cenedlaethol Glyndŵr. |

# Cefndir

1. Ni yn Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n ffurfio'r corff dynodi statudol sy'n gyfrifol am ystyried pa ardaloedd sy'n bodloni'r meini prawf statudol ar gyfer dynodi Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol. Comisiynodd Llywodraeth Cymru ni i werthuso'r achos dros Barc Cenedlaethol newydd yn seiliedig ar Dirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Rydym wedi gwneud hyn o dan ein pwerau a'n dyletswyddau statudol fel y corff dynodi drwy broses ffurfiol gyhoeddedig, Canllawiau Gweithdrefnol GN010. Dim ond os yw'n ymddangos bod y dystiolaeth yn dangos bod y meini prawf dynodi statudol, fel y'u nodir mewn deddfwriaeth, yn cael eu bodloni y gellir dynodi ardal o dir yn Barc Cenedlaethol.

2. Yn ei gyfarfod ar 16 Gorffennaf 2025, derbyniodd y bwrdd adroddiad ar yr ymgynghoriad cyhoeddus ar ffin ymgeisiol a gynhaliwyd yn 2024 ynghyd â'r dystiolaeth mewn perthynas â harddwch naturiol a hamdden awyr agored ac amrywiaeth o dystiolaeth ategol. Yn dilyn trafodaeth, cymeradwyodd y bwrdd yr argymhelliad i fwrw ymlaen â'r ymgynghoriad statudol ar Orchymyn (Dynodi) Parc Cenedlaethol Glyndŵr 2025 arfaethedig.

3. Nid yw'r deunydd a gyflwynwyd ar 16 Gorffennaf wedi'i atgynhyrchu yn yr adroddiad hwn ond mae ar gael i'r bwrdd a'r cyhoedd yma a bydd yn rhan o'r pecyn a anfonir at y gweinidog ar ôl y cyfnod hysbysu os bydd y bwrdd yn penderfynu gwneud y gorchymyn dynodi (yn y cyd-destun hwn, mae gwneud yn golygu llofnodi a selio'r gorchymyn).

# Ymgynghoriad statudol ar Orchymyn (Dynodi) Parc Cenedlaethol Glyndŵr 2025 arfaethedig

4. Dechreuodd yr ymgynghoriad statudol ar Orchymyn (Dynodi) Parc Cenedlaethol Glyndŵr 2025 arfaethedig ar 15 Medi 2025 a daeth i ben ar 8 Rhagfyr 2025.

5. Cawsom sylw gan y BBC yn y ddwy iaith, radio byd-eang ac amrywiaeth o'r wasg genedlaethol a rhanbarthol ynghyd â chyhoeddiadau technegol fel *Farmers Weekly*. Trefnom ddigwyddiadau ymgynghori wyneb yn wyneb ac ar-lein, cyfarfodydd cyhoeddus yn Llangynog a Gwaenesgor, ynghyd â chyfarfodydd â'r awdurdodau lleol fel ymgyngoreion statudol ac amrywiaeth o randdeiliaid sectoraidd (Atodiad 1).

6. Mynychodd cyfanswm o 1,065 o bobl ein digwyddiadau a chawsom 1,678 o ymatebion.

**Adolygiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad statudol**

7. Yr ystyriaethau perthnasol i ni o ran a ddylid dynodi Parc Cenedlaethol yw'r rhai a nodir yn adran 5 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (Deddf 1949), y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel y profion statudol, sef:

- Harddwch naturiol
- Cyfleoedd y mae'r ardal yn eu cynnig ar gyfer hamdden awyr agored, gan ystyried ei chymeriad a'i safle mewn perthynas â chanolfannau poblogaeth
- A yw'n arbennig o ddymunol cymryd y mesurau angenrheidiol er mwyn:
    - gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal benodedig
    - hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardaloedd hynny

8. Rydym wedi ystyried yr holl gynrychioliadau, gwrthwynebiadau a sylwadau a gyflwynwyd i ni yn erbyn y meini prawf dynodi. Er bod nifer o ymatebion manwl wedi'u derbyn mewn perthynas â'r ffin arfaethedig, cododd llawer faterion ehangach nad oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol â'r profion statudol sy'n ofynnol i gyfiawnhau'r gorchymyn dynodi.

9. Bydd yr ystyriaethau ehangach hyn yn cael eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Integredig a fydd yn llywio penderfyniad Llywodraeth Cymru i gadarnhau, diwygio neu wrthod y gorchymyn dynodi. Am y rheswm hwn, rydym wedi darparu gwybodaeth am yr ymatebion a dderbyniwyd, er nad oedd llawer ohonynt yn gysylltiedig â'r meini prawf y mae'n rhaid i ni gyfyngu ein hystyriaethau iddynt. Rydym hefyd yn darparu'r wybodaeth i fod yn dryloyw, gan adlewyrchu egwyddorion "ymgysylltu â'r cyhoedd" a "chydweithio" rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

**Dadansoddiad o ymateb yr ymgyngoreion statudol**

10. Awdurdodau lleol yw'r unig ymgynghorai statudol mewn perthynas â dynodi Parciau Cenedlaethol. Felly mae ymateb y cyrff hyn yn hanfodol o ran ein hystyriaeth ac adolygiad o'r ymateb i'r ymgynghoriad statudol. Mae safbwynt pob awdurdod lleol wedi'i nodi isod:

    - Sir y Fflint – ddim yn gallu cefnogi wrth aros am fanylion pellach
    - Sir Ddinbych – yn gwrthod y cynnig wrth aros am fanylion pellach
    - Powys – gwrthwynebiad
    - Gwynedd – gwrthwynebiad
    - Wrecsam – gwrthwynebiad

11. Cododd yr awdurdodau lleol themâu cyffredin yn ymwneud ag ansicrwydd ynghylch cyllid ac adnoddau ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol, llywodraethiant, trefniadau cynllunio, seilwaith a rheoli ymwelwyr, fforddiadwyedd tai, a'r effaith ar y Gymraeg.

12. Roedd Sir Ddinbych o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ohirio penderfyniad ar y dynodiad tan ar ôl etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026, pan allai fod mwy o eglurder a sicrwydd ynghylch adnoddau.

13. Cododd Cyngor Sir Powys heriau i'n gwerthusiad o harddwch naturiol a'r cyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored. Rydym yn fodlon nad yw'r pwyntiau a godwyd gan Bowys yn newid ein gwerthusiad a'n tystiolaeth ar y rhain yn sylweddol na sut mae ardaloedd sy'n bodloni'r meini prawf statudol wedi'u tynnu ynghyd o fewn ardal gydlynol ar gyfer dynodiad Parc Cenedlaethol. Mae ein hymateb wedi'i nodi yn Atodiad 2.

14. Os oes gwrthwynebiadau gan awdurdod lleol statudol nad ydynt yn cael eu tynnu'n ôl cyn cyflwyno gorchymyn i'w gadarnhau, rhaid i Weinidogion Cymru gynnal ymchwiliad cyhoeddus lleol.
15. Er nad ydynt yn awdurdodau lleol statudol, mae'r cynghorau tref neu gymuned canlynol wedi gwrthwynebu: Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Llanfair Caereinion, Ceiriog Uchaf, Llandderfel, Cilcain, Llandrillo, Llangollen a Thremeirchion, Cwm a Waun.
16. Roedd Nannerch a Choed-poeth yn gefnogol yn amodol ar newidiadau i'r ffin.

**Sefydliadau cynrychioliadol**

17. Cawsom ymatebion gan amrywiaeth o sefydliadau cynrychioliadol:
    a. Cododd y sector ffermio a defnyddio tir bryderon, gydag Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad, Undeb Ffermwyr Cymru a Chydffederasiwn y Diwydiannau Coedwigaeth, er enghraifft, yn cyflwyno gwrthwynebiadau.
    b. Roedd y sector amgylcheddol yn gyffredinol yn gefnogol, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Cyngor y Parciau Cenedlaethol, Cymdeithas Eryri, a'r RSPB. Cefnogodd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru y cynnig mewn egwyddor wrth argymell newid i'r ffin.
    c. Gwrthwynebodd Cymdeithas Tirweddau Cenedlaethol, gan godi materion mewn perthynas â'r dystiolaeth ar gyfer y broses werthuso ac asesu ac o ran ystyried mecanweithiau rheoli amgen. Mae ein hymateb wedi'i nodi yn Atodiad 2.
    d. Roedd y sector twristiaeth a hamdden yn gefnogol yn gyffredinol, gyda'r Gymdeithas Mannau Agored a nifer o grwpiau'r Cerddwyr yn gefnogol. Gofynnodd Cerddwyr Croesoswallt am newidiadau i'r ffin. Roedd Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint yn gefnogol. Gwrthwynebodd Fforwm Mynediad Lleol Powys.
    e. Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid y sector mwynau – gan gynnwys, er enghraifft, y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynau, Gweithgor Agregau Rhanbarthol y Gogledd, Tarmac a Carter Jones – yn gwrthwynebu'r cynnig. Roedd hyn yn seiliedig ar gyfyngiadau canfyddedig yn deillio o Barc Cenedlaethol.
    f. Cododd y sector ynni adnewyddadwy bryderon tebyg mewn perthynas â chyfyngiadau canfyddedig. Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys, er enghraifft, Renewables UK Cymru, Bute Energy a Savilles ar ran Galileo.
    g. Cefnogodd Mentrau Iaith Cymru y cynnig mewn egwyddor yn amodol ar weithredu'r mesurau lliniaru a nodir yn yr asesiad o'r effaith ar y Gymraeg.

**Unigolion**

18. Cododd llawer o unigolion faterion tebyg i rai'r awdurdodau lleol, gan gynnwys ansicrwydd ynghylch llywodraethiant a chyllid, cynllunio a seilwaith, ffermio a rheoli tir,

hamdden a niferoedd ymwelwyr, tai, effaith ar y Gymraeg, ynghyd â sylwadau manwl ar y ffin arfaethedig.

19. Ychydig cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben, cawsom gopïau ffisegol o 1,017 o ymatebion i arolwg ar wahân a gynhaliwyd gan ddau gynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Rydym wedi cydnabod derbyn y rhain ac wedi nodi niferoedd a chynnwys eu harolwg, gyda'r mwyafrif yn gwrthwynebu'r cynnig. Fodd bynnag, roedd y cwestiynau a ofynnwyd yn wahanol i'n hymgynghoriad ni ac nid oes gennym unrhyw wybodaeth am y broses na'r fethodoleg a ddefnyddiwyd. O ganlyniad, nid ydym yn gallu uno'r ymatebion hyn â'n dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad statudol. Ni ddarparwyd datganiad GDPR gyda'r cyflwyniad a byddai cadw'r data hyn heb y mesurau cydymffurfio priodol yn ein rhoi mewn sefyllfa lle rydym yn torri gofynion diogelu data. Am y rheswm hwn, fe ddychwelasom y dogfennau i'r rhai a'u gwnaethant.

**Maint y gefnogaeth gyffredinol i'r cynnig**

20. Mae ein dadansoddiad yn dangos, o'r 1,678 o ymatebion a dderbyniwyd, fod 66% o blaid mewn egwyddor neu'n amodol ar newidiadau i'r ffin, tra bod 32% yn gwrthwynebu a 2% yn ansicr.

21. Rydym yn croesawu'r lefel hon o ymgysylltiad a byddwn yn darparu'r dadansoddiad cyffredinol i Lywodraeth Cymru wrth gyflwyno ein hargymhelliad, beth bynnag yw hwnnw. Fodd bynnag, mae ein dyletswydd statudol o ran a ddylid gwneud gorchymyn dynodi ai peidio yn ein cyfyngu i ystyried ar sail ansawdd y dystiolaeth a gyflwynir mewn perthynas â'r meini prawf dynodi fel y'u nodir uchod yn unig, ac nid pwysau cyflwyniadau sy'n ymwneud â materion ehangach neu farnau penodol. Mae hyn yn golygu dadansoddiad o ran:

**Harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored**

22. Nid yw mwyafrif yr ymatebion gan yr ymgyngoreion statudol wedi cwestiynu'r dystiolaeth sy'n ymwneud â'r meini prawf dynodi. Cododd Cyngor Sir Powys heriau, fel yr eglurwyd uchod. Roedd ymatebion gan sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau sectoraidd – er enghraifft, Renewables UK Cymru, y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynau a Gweithgor Agregau Rhanbarthol y Gogledd – ynghyd â chyflwyniadau gan ddatblygwyr unigol neu eu cynrychiolwyr – er enghraifft, Galileo, Bute Energy, RWE a Tarmac – yn cynnwys cyflwyniadau'n herio'r ffin. Derbyniwyd cyflwyniadau yn cefnogi'r Parc Cenedlaethol mewn egwyddor ond yn gofyn am welliannau i'r ffin gan Sir Drefaldwyn yn Erbyn Peilonau a Dee Valley Environmental Network, er enghraifft. Roedd y sector amgylchedd a hamdden yn gefnogol, gyda sefydliadau fel Coed Cadw, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a Cherddwyr Croesoswallt yn gofyn am welliannau i'r ffin.

23. Cyflwynodd ymatebwyr unigol amrywiaeth o sylwadau yn tynnu sylw at agweddau ar harddwch naturiol yr ardal a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored. Tynnodd rhai sylw at yr ardal a oedd eisoes yn cynnwys y ddwy elfen hon.

24. At ei gilydd, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r mathau eraill o dystiolaeth sydd eisoes wedi'u hystyried, rydym yn fodlon bod ardal arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr yn bodloni'r meini prawf o ran harddwch naturiol a hamdden awyr agored.

**Dadansoddiad mewn perthynas â dymunoldeb**

25. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod darn helaeth o dir sy'n bodloni'r meini prawf o ran harddwch naturiol a hamdden awyr agored ac sydd ag arwyddocâd cenedlaethol digonol fel y dylai dibenion Parc Cenedlaethol fod yn berthnasol iddo. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y broses ddynodi, gan gynnwys yr adroddiad ar rinweddau arbennig, yr adroddiad Grymoedd dros Newid, a'r ymateb i'r cyfnodau o ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd, yn nodi ystod o faterion a phwysau sydd ar hyn o bryd yn peri bygythiad i rinweddau arbennig y dirwedd neu a allai fod yn gwneud hynny yn y dyfodol. Daeth yr adroddiad ar yr opsiynau rheoli i'r casgliad bod y mecanweithiau, pwerau a dyletswyddau rheoli sy'n dod gyda Pharc Cenedlaethol statudol yn cynnig y mecanwaith mwyaf cadarn ar gyfer rheoli materion cyfredol a materion y dyfodol yn effeithiol yn y tymor hir, ar ben y trefniadau presennol.

26. Roedd anghysondeb barn rhwng yr ymatebwyr ynghylch rôl bosibl Parc Cenedlaethol ac awdurdod Parc Cenedlaethol. Cododd yr ymgyngoreion statudol, cyrff cynrychioliadol, datblygwyr a rhai aelodau o'r cyhoedd bryderon mewn perthynas â materion fel goblygiadau yn ymwneud â chyllid, adnoddau, cynllunio, ffermio a defnydd tir, rheoli ymwelwyr a seilwaith, fforddiadwyedd tai, a goblygiadau i'r Gymraeg. Roedd ymatebion gan gyrff sy'n cynrychioli buddiannau amgylcheddol, hamdden a threftadaeth yn gefnogol, gan gydnabod manteision posibl i natur ac o ran addasu i'r hinsawdd, cael mynediad gwell i gefn gwlad a rheoli ymwelwyr.

27. At ei gilydd, ar ôl ystyried y rhain, a'r ystyriaethau perthnasol i ni, rydym yn fodlon ei bod yn ddymunol dynodi'r ardal arfaethedig yn Barc Cenedlaethol.

**Dadansoddiad mewn perthynas â'r ffin arfaethedig**

28. Daeth nifer o themâu i'r amlwg yn y sylwadau i'r ymgynghoriad mewn perthynas â'r ffin arfaethedig.

**Newidiadau i'r ffin i gynnwys ardaloedd ychwanegol**

Codwyd sylwadau gan unigolion, aelodau'r gymuned a chynghorwyr sydd â diddordeb penodol yn eu hardal leol ac maent yn cynnwys:

- Caeau gerllaw Twyni Gronant a Thwyni Talacre
- Gweddillion posibl Clawdd Offa (dyffryn Aberchwiler)
- Dyffryn Ysgeifiog (dyffryn Aberchwiler)
- Mynydd Helygain
- Park in the Past, Castell Caergwrle a Dyffryn Ffridd (Mynydd yr Hôb)
- Dyffryn Clwyd
- Coedwig Clocaenog
- Dyffryn Clywedog (Coed-poeth)
- Caeau wrth Draphont Ddŵr y Waun

- Mynydd Mynyllod
- Dyffryn Dyfrdwy Uchaf, Llandrillo ac Ystad Rug
- Dyffryn Tanat
- Cymoedd Cain, Efyrnwy, Banwy a Meifod

29. Ein hymateb:Rydym wedi ystyried yr holl gyflwyniadau yn ofalus, wedi cynnal adolygiad manwl o'r dystiolaeth a gyflwynwyd, wedi adolygu hon yn erbyn y meini prawf dynodi, ac, yn achos safleoedd mwy, wedi gwerthuso hyn yn y maes. Mae ein hymatebion manwl wedi'u nodi yn Atodiad 2.

30. I gloi – rydym yn fodlon bod y dystiolaeth a gasglwyd yn dangos bod y tirweddau sydd wedi'u cynnwys ym Mharc Cenedlaethol arfaethedig Glyndŵr yn bodloni'r gofyniad statudol ar gyfer dynodiad. Felly nid ydym yn cynnig diwygio'r ffin arfaethedig.

**Heriau i'r asesiad, y dystiolaeth ac, yn eu tro, y tirweddau a gynhwyswyd i'w dynodi**

31. Codwyd sylwadau gan Gyngor Sir Powys a Chyngor Sir Gwynedd, Cymdeithas Tirweddau Cenedlaethol, grwpiau cynrychioliadol fel y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynau, Renewables UK Cymru, datblygwyr unigol (Tarmac), a chynrychiolwyr tirfeddianwyr yn yr ardal (Haven Leisure Limited ac Ystad Nantclwyd).

32. Ein hymateb: rydym yn fodlon nad yw'r pwyntiau a godwyd gan Bowys a Gwynedd fel ymgyngoreion statudol, neu grwpiau cynrychioliadol, datblygwyr unigol a chynrychiolwyr ystadau yn yr ardal, yn newid ein gwerthusiad a'n tystiolaeth o harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored yn sylweddol na sut mae ardaloedd sy'n bodloni'r meini prawf statudol wedi'u tynnu ynghyd o fewn ardal gydlynol ar gyfer dynodiad Parc Cenedlaethol. Mae ein hymatebion manwl wedi'u nodi yn Atodiad 2.

**Newidiadau i'r ffin i amddiffyn y dirwedd rhag datblygiad**

33. Daeth sylwadau gan grwpiau gweithredu lleol fel Dee Valley Environmental Network a Sir Drefaldwyn yn Erbyn Peilonau.

34. Ein hymateb: nid yw'r ffaith bod tirweddau mewn perygl o gael eu datblygu yn rhywbeth y gellir defnyddio dynodiad i fynd i'r afael ag ef gan nad oes lle i ystyried ffactorau y tu allan i'r profion statudol. Mae ein hymatebion manwl wedi'u nodi yn Atodiad 2.

35. At ei gilydd, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym yn fodlon bod y ffin arfaethedig yn amlinellu ffin briodol y gellir ei chyfiawnhau ar gyfer Parc Cenedlaethol Glyndŵr.

**Casgliad**

36. Rydym yn fodlon ei bod yn ddymunol gwneud gorchymyn dynodi yn y termau arfaethedig mewn perthynas â Pharc Cenedlaethol Glyndŵr.

## Risgiau, y parodrwydd i dderbyn risg a chyfleoedd

37. Byddai methu â chyflwyno argymhelliad clir, wedi'i seilio ar dystiolaeth dda, ar orchymyn dynodi o fewn tymor y Senedd hwn yn golygu bod elfen o Risg Strategol 8, Methiant Cyflawni Strategol, yn dod i'r amlwg. Mae'r ffaith ein bod wedi cyrraedd y cam hwn yn golygu ein bod wedi rheoli'r risg hon i raddau helaeth. Byddai penderfyniad sy'n mynd y tu hwnt i ystyried y profion statudol yn creu risgiau ar gyfer Risg Strategol 8 a Risg Strategol 7, Methiant Rheoleiddio.

38. Mae'r ffaith y dylem gyfyngu ein hystyriaeth i'r profion statudol yn tueddu i ddyrchafu "Risg Strategol 4: Methiannau Cydweithio ac Eiriolaeth: sef y risg bod CNC yn cynnal cydweithrediad ac eiriolaeth annigonol neu aneffeithiol gyda rhanddeiliaid allanol allweddol, gan arwain at ddull dameidiog neu fethiant i gyflawni amcanion a diben strategol". Efallai y bydd rhanddeiliaid yn canfod nad ydym wedi gwrando ar eu hadborth ynghylch materion nad ydynt yn berthnasol i'r profion statudol. Mae hyn yn cael ei wneud yn waeth oherwydd etholiadau'r Senedd sydd ar ddod, sy'n tueddu i gynyddu risgiau cynhenid yn y maes hwn. Rydym yn lliniaru'r risg hon drwy dryloywder a'r ymdrech rydym wedi'i gwneud i gynnal perthnasoedd o ansawdd uchel gyda'n rhanddeiliaid.

## Goblygiadau ehangach

39. Y goblygiadau ar agweddau ehangach yw:

   a. **Amcanion llesiant:** Rydym wedi ceisio rheoli ein rhyngweithiadau mewn ffordd sy'n cryfhau perthnasoedd fel y byddai cyflawniad ein hamcanion llesiant yn yr ardal yn cael ei wella cymaint â phosibl p'un a yw Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei greu ai peidio.
   b. **Goblygiadau cyllid ac adnoddau:** Pe bai ymchwiliad cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal, byddai angen adnoddau arnom i gefnogi ein cyfranogiad. Os bydd y dynodiad yn mynd rhagddo, bydd angen rhagor o gyllid arnom yn y blynyddoedd i ddod i gefnogi Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod sefydlu. Cadarnhawyd bod cyllid ar gyfer costau'r rhaglen ar gyfer 2025/26 yn £700,000. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd cyllideb debyg ar gael ar gyfer 2026/27.
   c. **Cydraddoldeb:** Mae'r broses ddynodi wedi'i llywio gan asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (sydd ar gael ar gais ynghyd â'r asesiadau effaith eraill).
   d. **Diogelu data:** Mae data wedi cael ei ddiogelu yn ystod y broses ymgynghori.

## Y camau nesaf

40. Os bydd y bwrdd yn cytuno â'r argymhelliad, yna bydd y gorchymyn yn cael ei wneud (yn y cyd-destun hwn, mae gwneud yn golygu y bydd y gorchymyn yn cael ei lofnodi a'i selio). Byddem wedyn yn cyhoeddi'r hysbysiadau statudol ffurfiol mewn nifer o gyhoeddiadau penodedig ac yn sicrhau bod copïau o'r gorchymyn a'r mapiau ar gael yn yr ardal, cyn cyflwyno'r gorchymyn 'wedi'i wneud' i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau. Byddai'r cyfnod hysbysu yn rhedeg o 16 Ionawr i 13 Chwefror 2026 ac, yn

ystod y cyfnod hwnnw, gallai ymgyngoreion statudol, sefydliadau cynrychioliadol a'r cyhoedd wrthwynebu a/neu wneud sylwadau ar y gorchymyn.

41. Ar ôl cwblhau'r cyfnod hysbysu, byddem yn cyflwyno Gorchymyn (Dynodi) Parc Cenedlaethol Glyndŵr 2026 i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau ynghyd ag unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau, unrhyw sylwadau ehangach, a'r dystiolaeth a gasglwyd drwy gydol y broses ddynodi.

42. Ni all gorchymyn dynodi ar ôl ei wneud ddod i rym oni bai ei fod wedi'i gadarnhau gan Weinidogion Cymru neu nes ei fod wedi'i gadarnhau ganddynt.

43. Os na wneir unrhyw sylwadau na gwrthwynebiadau, neu os tynnir unrhyw rai a wneir yn ôl, yna gall y gweinidog, os yw'n ystyried yn briodol, gadarnhau'r gorchymyn gyda neu heb addasiadau.

44. Os bydd awdurdod lleol yn gwrthwynebu ac nad yw'n tynnu ei wrthwynebiad yn ôl, rhaid i'r gweinidog gynnull ymchwiliad cyhoeddus lleol. Ym mhob achos arall, mae gan y gweinidog ddisgresiwn i benderfynu a ddylid cynnull ymchwiliad cyhoeddus lleol ai peidio neu roi cyfle arall i wrthwynebwyr wneud sylwadau.

45. Os cynhelir ymchwiliad, ar ôl i'r gweinidog gael cyfle i ystyried adroddiad yr ymchwiliad, gall y gweinidog benderfynu a ddylid cadarnhau'r gorchymyn ai peidio a pha un a ddylid gwneud unrhyw newidiadau iddo.

46. Os caiff ei gadarnhau, ar yr un pryd ag y cadarnhawyd y gorchymyn dynodi, byddai gorchmynion dynodi ar gyfer y Dirwedd Genedlaethol bresennol yn cael eu dirymu a byddai cyfnod pontio yn dechrau i alluogi sefydlu awdurdod y Parc Cenedlaethol a throsglwyddo'r pwerau perthnasol o'r awdurdodau lleol yr effeithir arnynt iddo.

## Argymhelliad

47. Mae ein hasesiadau a chanlyniad y broses ymgynghori wedi ein harwain i argymell bod bwrdd CNC yn gwneud Gorchymyn (Dynodi) Parc Cenedlaethol Glyndŵr 2026 o dan bwerau cyfreithiol a ddarperir gan y gweithdrefnau a nodir yn Neddf 1949, ac yn unol â hwy, ac, os caiff ei wneud, yn cyhoeddi'r hysbysiadau statudol ffurfiol mewn cyhoeddiadau penodedig ac yn sicrhau bod y gorchymyn a'r map ar gael i'w harchwilio yn yr ardal, cyn cyflwyno'r gorchymyn 'wedi'i wneud' i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau.

### Rhestr atodiadau:

Atodiad 1 – Digwyddiadau a chyfarfodydd ymgynghori

Atodiad 2 – Adroddiad dadansoddi (i ddilyn)

## Y broses gymeradwyo / ymgynghori

| | |
|---|---|
| **Y broses gymeradwyo / ymgynghori**<br><br>**Cyfrifoldeb:** Pwy sydd wedi datblygu'r papur/proses, a phwy sydd wedi rhoi mewnbwn? | Datblygwyd y papur gan Keith Davies, Ash Pearce a Richard Sumner gyda mewnbwn cyfreithiol gan Browne Jacobson. |
| **Yn atebol:** Pwy sy'n atebol am y gymeradwyaeth derfynol? Pwy fydd yn cymeradwyo, neu pwy y gofynnir iddo gymeradwyo? | Bwrdd CNC |
| **Ymgynghori**: Â phwy yr ymgynghorwyd hyd yma? Pan fydd angen cymeradwyaeth, a ydyw ar waith? A fydd angen ymgynghori pellach? | Ruth Jenkins / Rhian Jardine, Uwch-swyddog Cyfrifol<br><br>Dominic Driver, Cyfarwyddwr Gweithredol, Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu |
| **Hysbysu**: Pwy sydd wedi cael gwybod neu pwy sydd angen rhagor o wybodaeth am y gwaith? | Y Tîm Gweithredol |

**Annex 1**

## Statutory Consultation on a proposed Glyndwr National Park(Designation)Order 2025-Consultation Events and Meetings

### Consultation Events

| Date | Time | Location | Target audience | Type of event |
|---|---|---|---|---|
| Monday 22 September | 6pm – 7.30pm | Microsoft Teams | Elected Members (MSs, MPs) | Meeting |
| Wednesday 24 September | 6pm – 7.30pm | Microsoft Teams | Elected Members (Cllrs, Community Cllrs) | Meeting |
| Wednesday 1st October | 4pm - 7pm | Coleg Cambria - Llysfasi | Landowners | Drop-in |
| Thursday 2 October | 4pm – 7pm | Canolfan Ni Corwen | Public | Drop-in |
| Wednesday 8 October | 6pm – 7.30pm | Microsoft Teams | Local Organisations and Businesses | Meeting |
| Tuesday 14 October | 2pm – 5pm | Llangynog Memorial Hall | Public | Drop-in |
| Tuesday 14 October | 6.30pm – 8pm | Llangynog Memorial Hall | Public | Meeting |
| Wednesday 15 October | 4pm – 7pm | Canolfan Ceiriog Centre | Public | Drop-in |
| Wednesday 22 October | 2pm – 5pm | Gwaenysgor Village Hall, Gwaenysgor, Rhyl LL18 6EP | Public | Drop-in |
| Wednesday 22 October | 6.30pm – 8pm | Gwaenysgor Village Hall, Gwaenysgor, Rhyl LL18 6EP | Public | Meeting |
| Tuesday 4 November | 3pm – 4.30pm | Microsoft Teams | Energy Sector | Meeting |
| Wednesday 19 November | 6pm – 7.30pm | Microsoft Teams | Public | Meeting |
| Wednesday 26 November | 3pm – 4.30pm | Microsoft Teams | Environmental Groups | Meeting |
| Thursday 27 November | 3pm – 4.30pm | Microsoft Teams | Tourism, Recreation and Access | Meeting |
| Tuesday 2 December | 6pm – 7.30pm | Microsoft Teams | Public | Meeting |

An additional in person drop-in event was organised in Llangollen Town Hall on November 18$^{th}$, 4pm-7pm.

**Meetings**

**September**
17th Flintshire County Council members.
Land Use Consultants on behalf of Galileo
18th NFU,FUW,CLA
22nd Denbighshire County Council members
On-line event. Elected members(MPs and SMs)
23rd CNP Senedd event
24th On-line Events. Elected Members(Local Authorities and Community Councils)

**October**
1st Landowner Event- Coleg Llysfasi Ruthin.
2nd Public Drop-in event Corwen
3rd Wrexham Cabinet Lead briefing
8th On-line event. Local Organisations and Businesses
9th Cyngor Gwynedd local member briefing
14th Llangynog Public Drop-in event and Public Meeting
15th Public Drop-in event Glyn Ceiriog
17th Clwydian Range and Dee Valley Partnership
22nd Public Drop-in event and Public Meeting Gwaenesgor
28th Alliance for Welsh Designated Landscapes
30th Wrexham member workshop

**November**
3rd Powys member workshop
4th National Access Forum Wales
4th On-line event-Energy Sector
5th Trydan Gwyrdd
6th NRW/WEL Forum
18th Public Drop-in event Llangollen
19th On-line Public Event
21st Clwydian Range and Dee Valley Joint Committee
25th On-line event. Environment Sector
27th On-line event. Tourism, Recreation and Access
28th Special meeting of the Clwydian Range and Dee Valley Partnership

**December**
2nd On-line Public Event
8th Close of Consultation

# Papur bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 12 Ionawr 2026 |
| **Teitl y papur:** | Ardaloedd Draenio Mewnol – praeseptau, ardrethi ac ardollau 2026/27 |
| **Cyfeirnod y papur:** | 26-01-B02 |
| **Noddwyd y papur gan:** | Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol |
| **Paratowyd y papur gan:** | Pepe Sepulveda, Cyfrifydd Busnes |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Rob Bell, Pennaeth Cyllid |
| **Diben y papur** | Cymeradwyaeth |
| **Crynodeb** | Gofynnir i'r bwrdd wneud y canlynol:<br>• cymeradwyo ardollau arbennig, ardrethi draenio a phraeseptau'r Ardaloedd Draenio Mewnol ar gyfer 2026/27<br>• awdurdodi i'w sêl gyffredin gael ei gosod ar yr ardrethi draenio cymeradwy<br>• dirprwyo cyfrifoldeb y bwrdd dros gymeradwyo datganiadau blynyddol ar gyfer 2025/26 i Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol |

## Cefndir

1. Gofynnir i'r bwrdd gymeradwyo'r argymhellion yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd gyda chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd ar 17 Rhagfyr 2025 a oedd yn ystyried ardollau arbennig, ardrethi draenio a phraeseptau'r Ardaloedd Draenio Mewnol ar gyfer 2026/27.

2. Mae'r bwrdd wedi cytuno'n flaenorol i ddirprwyo ystyriaeth fanwl o faterion sy'n ymwneud ag Ardaloedd Draenio Mewnol i'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd.

3. Mae'r holl argymhellion ariannu wedi cael eu trafod gyda'r gwahanol grwpiau cynghori ar gyfer yr Ardaloedd Draenio Mewnol.

## Asesiad

4. Cynhaliodd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (gyda'i gyfrifoldeb dirprwyedig) gyfarfod eithriadol ar ddydd Mercher 17 Rhagfyr pan ystyriodd a chytunodd ar y praeseptau, ardrethi draenio ac ardollau arbennig arfaethedig ar gyfer Ardaloedd Draenio Mewnol yn 2026/27 ac mae'n argymell bod y bwrdd yn eu cymeradwyo.

5. Yn gryno, y cynigion yw:

- Cynyddu'r praeseptau i £340k (cynnydd o £14k ar ardrethi 2025/26)
- Cynyddu ardollau arbennig i £1.54 miliwn ac ardrethi draenio i £240k (cynnydd o £73k ar ardrethi 2025/26, yn unol â chwyddiant)

6. Os bydd angen i aelodau o fwrdd CNC gael copi o bapur y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd ar gynigion ariannu Ardaloedd Draenio Mewnol ar gyfer 2026/27, cysylltwch â'r ysgrifenyddiaeth.

## Risgiau, y parodrwydd i dderbyn risg a chyfleoedd

7. Os na chaiff y praeseptau, ardrethi draenio ac ardollau arbennig eu cymeradwyo, yna ni fyddwn yn cyflawni'r amserlenni statudol ac ni fydd y rhaglen waith yn cael ei hawdurdodi.

## Goblygiadau ehangach

(a) **Cyllid:** Mae'r papur yn ymwneud â sefyllfa ariannol yr Ardaloedd Draenio Mewnol. Bydd costau hysbysebu bychain yn gysylltiedig â hysbysu pobl o'r ardrethi draenio a gytunwyd yn yr ardal leol.

(b) **Cydraddoldeb:** Nid oes angen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.

## Y camau nesaf

8. Amserlenni:

- Cyhoeddi ardrethi draenio ar ryngrwyd CNC – o fewn deg diwrnod i gymeradwyaeth y bwrdd (erbyn 26 Ionawr 2026)
- Postio atodlenni wedi'u selio o ardollau arbennig i awdurdodau lleol erbyn 14 Chwefror 2026

## Argymhelliad

9. Gofynnir i'r bwrdd wneud y canlynol:

- Cymeradwyo ardollau arbennig, ardrethi draenio a phraeseptau'r Ardaloedd Draenio Mewnol ar gyfer 2026/27

- Awdurdodi i'w sêl gyffredin gael ei gosod ar yr ardrethi draenio cymeradwy
- Dirprwyo cyfrifoldeb y bwrdd dros gymeradwyo datganiadau blynyddol ar gyfer 2025/26 i Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol